# ***Canolbwyntio ar:*** Gwasanaeth Anableddau Dysgu Plant a Phobl Ifanc (CALDS)

Mae'r tîm CALDS, sy'n gweithio ar draws Conwy a Sir Ddinbych, yn rhan o BIPBC ac yn gweithio gyda phobl ifanc 5-18 oed sydd ag anableddau dysgu ac anghenion ychwanegol cymhleth. Mae'r tîm wedi'i leoli yng Nghanolfan Plant Sir Ddinbych ac yn mynd o amgylch ysgolion, cartrefi a darpariaethau seibiant i ddarparu cymorth i bobl ifanc.

Mae CALDS yn defnyddio dull cynhwysfawr ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ac yn gweithio gyda thimau proffesiynol eraill fel seicolegwyr clinigol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau addysg.

## Asesu ar y Cyd

Sylwodd y tîm eu bod nhw'n derbyn llawer iawn o atgyfeiriadau ar gyfer plant gyda phroblemau iechyd meddwl nad ydynt yn gymwys i dderbyn gwasanaeth gan CALDS. Fel rheol, er mwyn derbyn gwasanaethau CALDS, mae'n rhaid i'r plentyn neu'r person ifanc fod ag IQ is na 70. Fodd bynnag, roedd llawer o'r atgyfeiriadau hyn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc gydag IQ uwch a oedd yn arddangos ymddygiad heriol a phroblemau iechyd meddwl gydag IQ is na'r disgwyl, a oedd yn awgrymu ***anhawster*** dysgu (yn hytrach na diagnosis o ***anabledd*** dysgu sydd ei angen i dderbyn gwasanaeth CALDS).

Er na fyddai rhai o'r plant a'r bobl ifanc hyn fel rheol yn derbyn gwasanaethau'r tîm CALDS, teimlwyd fod gweithio gyda CAMHS ac amlygu angen iechyd sylfaenol y plant h.y. anableddau dysgu neu iechyd meddwl, a nodi pa wasanaeth yw'r gwasanaeth gorau i weithio gyda nhw yn rhoi'r *canlyniad gorau* i'r plentyn neu'r person ifanc.

Arweiniodd hyn ar roi proses newydd ar brawf; mae tîm CALDS wedi bod yn gweithio mewn ***partneriaeth*** â CAMHS gan ddarparu nyrs anabledd dysgu ar gyfer yr ymgynghoriadau iechyd meddwl a'r asesiadau ar gyfer pobl ifanc gydag anabledd dysgu neu anabledd dysgu posib. Y gobaith yw penodi ymarferydd o CAMHS i wneud yr un peth o fewn CALDS am gyfnod cyfyngedig.

Wrth gael nyrs anabledd dysgu arbenigol yn rhan o asesiadau CAMHS, mae hynny'n caniatáu iddynt dderbyn mwy o wybodaeth am anghenion dysgu a sgiliau ymaddasol y person ifanc. Caiff yr wybodaeth hon ei chasglu drwy drafod gyda rhieni a chlinigydd CAMHS, tystiolaeth o waith ysgol, adroddiadau seicoleg addysgol neu

ddatganiad o anghenion addysgol. Mae hyn yn caniatáu i'r tîm asesu, er enghraifft, ai CALDS yw'r gwasanaeth gorau i gefnogi'r plentyn hwnnw. Os nad CALDS yw'r dewis gorau, mae presenoldeb y nyrs anableddau dysgu arbenigol yn golygu bod modd nodi unrhyw fwlch a darparu cyngor a chyfarwyddyd priodol.

Er enghraifft, os yw IQ plentyn yn rhy uchel i fodloni gofynion CALDS a bod gan y plentyn anhawster dysgu yn hytrach nag anabledd, gellir rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar dderbyn cefnogaeth ychwanegol yn ystod y cyd-ymgynghoriad ag ymarferydd CALDS.

Drwy weithio mewn partneriaeth ag addysg a CAMHS mae'r tîm wedi gallu edrych ar Therapi Ymddygiad Dialectig arbennig.

Mae Laura o'r tîm CALDS ar hyn o bryd yn treulio diwrnod yr wythnos gyda thîm CAMHS Conwy yn darparu cymorth ac yn meithrin gwaith partneriaeth gyda'i harbenigedd mewn anableddau dysgu. Mae Melanie Woodruff wedi bod yn gweithio gyda CAMHS Sir Ddinbych ac mae'r cysylltiadau rhwng CAMHS a CALDS yn gwella'n barod, gan rannu arbenigedd ac arfer orau drwy gydweithio a phartneriaethau.

Canlyniadau cadarnhaol y cymorth hwn yw: llai o atgyfeiriadau amhriodol (sy'n cymryd llawer o amser) a mwy o gefnogaeth i unigolion gydag anableddau dysgu a phryderon iechyd meddwl cysylltiedig sy'n derbyn gwasanaeth sy'n amlygu eu hanghenion iechyd SYLFAENOL.

Am fwy o wybodaeth am y cydweithio hwn rhwng CALDS a CAMHS cysylltwch â:

- Laura Brewerton (BIPBC – Nyrsio Cymunedol); Laura.Brewerton@wales.nhs.uk

- Melanie Woodruff (BIPBC - Gwasanaethau Anabledd Dysgu Plant); Melanie.Woodruff@wales.nhs.uk